YCHYDIG O

# ADGOFION GALARUS

AM Y

# LLONG HENRY CATHERINE,

*O NEFYN,*

Yr hon a aeth i lawr yn Mhorth Neigwl, ~~ers ychydig wythnosau yn ol.~~

Gan "Gwilym," o Bencaerau, Lleyn.

---

1.—Rhyw newydd trwm galarus
  Wy'n roddi yma'n awr,
[illegible] dery'r glust yn ~~hogar~~
  Am Schooner aeth i lawr ;
Ei henw oedd Henry Catherine
  Yn Nevin rhestrwyd hon,
Pan glywsant am y newydd
  'Roedd pawb yn brudd eu bron,

2.—O Ddublin hi ddaeth allan
  Yn llawen iawn ei chriw,
Heb feddwl am yr helbul
  Ddaeth arnynt tua'r Rhiw.
Cyn cyrhaedd trwyn y mynydd
  Daeth arnynt awydd ffoi,
Doedd ynddi neb yn gwybod
  Yn iawn pa le i droi

3.—Y bumed nos o Ragfyr,
  Rhyw ruthr mawr a ddaeth,
Y criw oedd yn arswydo
  Rhag syrthio ar ryw draeth ;
Fe'i beliwyd at Borthneigwl
  Mewn trwbwl gyflwr blin,
A phara'r oedd y dryccin
  Nes dychryn rhai'n bob un,

4.—Fel y cryfhâi'r ystorom,
  A'r dynion yn gwanhau,
Yr oedd pob drws o obaith
  Ar unwaith bron a chau.

 fel

'Roedd natur ~~bron~~ a gwylltio,
A chyffro yn y mor,
Ond cadwodd at orchymyn
Y Brenin Arglwydd Ior.

5.—Doedd dim ond 'mroi i'w gollwng.
I fyned gyda'r dón,
A treio rhwymo eu hunain
Yn sound wrth daclau'r llong;
Y môr a godai ' fyny
Fel rhyw fynyddau mawr,
A hwythau oedd yn ofni
Bob munyd fyn'd i lawr

6.—Yr oedd y môr yn rhuo,
A'r gwynt yn chwythu'n gry'
A'r llong yn methu hwylio
Yn debyg fel y bu;
Fe gollwyd dynion bedwar
Yn gynar cyn y dydd,
Daeth un fel o grafangau
Yr angau glâs yn rhydd.

7.—Tua dau o'r gloch y bore
Os da y cofia'r dyn,
'Roedd ynddi bump o ddynion
Yn fywion oll bob un,
Wrth iddi gael ei hyrddio
A'i lluchio yn y fan,
Ni chaed ond ef ei hunan—
Wr truan ar y lan.

8.—Ymwelodd hen drugaredd
Yn rhyfedd iawn a'r gwr,
Fe'i caed yn mhlith y darnau
O gyrhaedd tonau'r dwr;
'Roedd awydd yr hen weilgi
I gadw yn ei gôl—
Cadd ddianc er ei waethaf
'Roedd dyddiau iddo'n ol.

9.—A'r lleill o'r criw garcharwyd
Fe'i daliwyd yno'n gaeth,
Yr hwn sydd fel un dynol
Rodd iddynt farwol saeth;
Aeth rhai'n i ffordd yn brysur
'Rhyd llwybr tywyll du

Fe'i collwyd o fysg pobl,
I blith y marwol lu.

10.—Pa galon byth all dirnad
Eu profiad ar y pryd,
Wrth iddynt gael lluchio,
A'u hyrddio rhwng dau fyd;
Ond fel yr ydoedd angau
Yn prysur wneud ei waith,
Rhoes derfyn ar eu gyrfa
Rhwng tonau'r eigion llaith.

11.—Dymunol fyddai'r teulu
Sy'n ol ar dir y byw,
Ymdrechu ymdawelu
Yn wyneb troion Duw,
Efe sy'n llywodrethu
Y môr a'r gwyntoedd mawr,
Efe sy'n codi ' fyny—
Efe sy'n taflu ' lawr.

12.—Mae olwyn fawr rhagluniaeth
Yn dywyll iawn i ni,
Rhy fyr yw ein gwybodaeth
I allu'i holrain hi,
Tywysog mawr Tangnefedd
A wyr amgylchedd hon,
Ei throion dyfnion dyrus
Sy'n hysbys ger ei fron.

13.—Bu'r Cadben Henry Roberts
Mewn Voyage lawr gwaith,
Ac ni ddaeth dim damweiniol
I'w rwystro'n ol o'i daith;
Ond am siwrna yma
~~Megis~~ aneirif lu,
Mae wedi rhodio'r llwybr
Na ddychwel mwy i'w dy.

14.—Ei blant ~~sydd~~ heb eu magu
Yn chwech o gyfri' i gyd,
A'i anwyl wraig yn weddw
Ynganol twrf y byd;
Rhaid myn'd trwy orthrymderau
Tra yn y fuchedd hon,
Mae dyfroedd oerion angau
Yn chwerwi llawer bron.

15.—Ond na thristhad y teulu
Fel rhai heb obaith da,
Beth bynag a addawodd
Yr Arglwydd Dduw fei gwna ;
Yn dad bydd i'r amddifaid,
A barnwr gweddwon gwael,
Pan fyddont mewn cyfyngder
Un hawddgar yw Duw hael.

16.—Os dyfroedd hyd y fferau
Gadd rhai yn nechreu'r daith,
Yn awr mae hyd y gluniau
A'r lwynau ambell waith.
Ond mae un yn gofalu
Pe cyrhaeddent ddyddiau hen
Na chaiff y dwr eu boddi
Er codi at yr ên.

17.—Caed un or enw Evan
Yn gelain ar y traeth,
Yr hwn a gadd ei wasgu
I ryw galedi caeth ;
Pan aed a hwn i Nevin
Bu dychryn drwy'r holl dre,
Yn awr mae yn y ddaear
Yn oeraidd iawn ei le.

18.—Un mil wyth gant tri ugain
Hyn ydoedd oedran Crist,
A chwe' mlwydd gyda hyny
Daeth i ni'r newydd trist ;
Y chweched ddydd o Ragfyr
Yn brysur daeth y braw,
Yn hir fe bery'r galar
Am amser etto a ddaw.

19.—Y mae ryw amryw leisiau
Yn galw yn uchel iawn,
Am i ni ffoi i'r noddfa
Cyn machlud haul prydnawn ;
Yn darfod mae ein dyddiau
Fel hyn o bryd i bryd,
Nid yma mae ein cartre'
Fe'n cludir oll o'r byd.

DIWEDD.